**Eitem ar yr agenda: 10**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**27 MAWRTH 2006**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU**

Adroddiad gan y Clerc

**Diben yr Adroddiad**

1 Ystyried yr adroddiad sydd ynghlwm gan y Pwyllgor Safonau.

**Cefndir**

2 O ran llywodraeth gorfforaethol dda, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu darparu adroddiad blynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub ynghylch ei weithgarwch yn ystod pob blwyddyn ariannol. I'r diben hwn, cyfarfu'r Pwyllgor ar 22 Chwefror 2006 i gytuno ar ei Adroddiad Blynyddol am 2005/06.

3 O'r herwydd, mae ail Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor, sy'n sôn am ei weithgarwch rhwng Ebrill 2005 a Mawrth 2006, ynghlwm i'w ystyried gan yr Aelodau.

**Argymhelliad**

4 Bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn derbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau, ac yn ystyried a yw'n dymuno cefnogi argymhelliad y Pwyllgor i gael y newid yn y ddeddfwriaeth y gofynnir amdano.

**PWYLLGOR SAFONAU AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL**

1 Dyma ail adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod Tân ac Achub ac yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Ebrill 2005 a Mawrth 2006.

**Aelodaeth**

2 Mae aelodaeth y Pwyllgor fel a ganlyn:

Aelodau annibynnol
Mr Chris Bretherton-Watt (cadeirydd)
Mr John Pollard YH (is-gadeirydd)
Mr Simon Fysh

Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub
Y Cynghorydd Sharon Frobisher
Y Cynghorydd Gwilym O Williams

**Y cyfarfodydd a gynhaliwyd**

3.1 Mae'r Pwyllgor yn ymdrechu i gyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn, fel arfer bob rhyw chwe mis, neu'n amlach os bydd busnes yn creu'r angen am gyfarfodydd o'r fath. Yn ystod y flwyddyn dan sylw, cyfarfu'r Pwyllgor deirgwaith: 1 Gorffennaf 2005, 10 Hydref 2005 a 22 Chwefror 2006.

3.2 Roedd y presenoldeb fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Mr Chris Bretherton-Watt | 3/3 |
| Mr John Pollard YH | 2/3 |
| Mr Simon Fysh | 3/3 |
| Y Cynghorydd Sharon Frobisher | 2/3 |
| Y Cynghorydd Gwilym O Williams | 3/3 |

3.3 Amcangyfrifir mai ychydig dros £700 oedd y costau ychwanegol am weithgarwch y pwyllgor safonau, yn cynnwys teithio a chynhaliaeth, argraffu, postio ayyb.

**Y materion a drafodwyd**

4 Bu'r pwyllgor yn trafod y materion canlynol:

**Ymgynghoriadau a deddfwriaeth ddrafft:**

4.1 ymgynghoriad a deddfwriaeth ddrafft Llywodraeth y Cynulliad ynghylch yr "Adolygiad o'r Côd Ymddygiad Enghreifftiol". Dosbarthwyd copi o ymateb y Pwyllgor i bob aelod o Banel Gweithredol yr Awdurdod cyn ei gyfarfod ar 25 Gorffennaf 2005. Yna, fe benderfynodd y Panel "nad oedd yn dymuno gwneud rhagor o sylwadau na chyflwyno ymateb arall i'r ymgynghoriad ar ran yr Awdurdod";

4.2 ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad ar y gwelliannau i reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001. Roedd ymateb y Pwyllgor i'r ymgynghoriad hwn yn cwmpasu materion megis roi'r hawl i aelodau annibynnol pwyllgorau safonau i wneud cais am ail dymor yn eu swydd, trwy gystadleuaeth agored, a bod Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau gwelliant i'r ddeddfwriaeth sylfaenol fyddai'n caniatáu i bwyllgor safonau i ddatganoli'r pwer i ganiatáu gollyngiadau i gadeirydd y pwyllgor. Fe awgrymodd y pwyllgor hefyd fod deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno i gael gwared ar y gofyniad i awdurdodau unigol sefydlu eu pwyllgor safonau eu hunain, yn unol â pholisi Llywodraeth y Cynulliad yn *Creu'r Cysylltiadau*;

4.3 ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad ar Orchymyn Drafft Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Ymchwiliadau i Safonau). Cytunwyd ar ymateb y Pwyllgor trwy ohebiaeth, ac roedd yn cefnogi byrdwn y gorchymyn drafft. Yn ei ymateb, fe gofnododd y Pwyllgor hefyd ei siom nad oedd gan y Cynulliad y pwerau angenrheidiol i weithredu'r newidiadau i'r gyfundrefn i alluogi ymchwilio i bob cwyn yn lleol yn y lle cyntaf, a dim ond cyfeirio'r rhai mwy difrifol at yr Ombwdsmon. Roedd felly'n ailddatgan ei alwad am ddiwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r Pwyllgor Safonau yn gofyn i'r Awdurdod Tân ac Achub gefnogi ei safiad yn hyn o beth.

**Materion eraill:**

4.4 gweithdrefnau i'r pwyllgor ar gyfer ymdrin ag ymchwiliadau a gwrandawiadau. Cwblhawyd y gweithdrefnau hyn, ac fe'u diwygiwyd i adlewyrchu'r gofyniad presennol fod rhaid cyfeirio pob cwyn yn y lle cyntaf at yr Ombwdsmon ac yntau i benderfynu a fyddai ef yn ymchwilio i'r gwyn ynteu'n ei chyfeirio i'r swyddog monitro lleol ymchwilio iddi;

4.5 darparu cyllideb flynyddol ar gyfer y pwyllgor. Bu aelodau'r Pwyllgor yn ystyried a ddylai'r Pwyllgor Safonau gael ei gyllideb ei hun. Wedi cael sicrwydd y gellid monitro gwariant y Pwyllgor yn foddhaol, trwy gyllideb

Gwasanaethau Pwyllgorau'r Awdurdod, penderfynwyd y byddai darparu adroddiad ar y diweddaraf o ran gwariant i bob cyfarfod yn ddigon;

4.6 anghenion hyfforddi ar gyfer aelodau'r pwyllgor ac aelodau'r awdurdod tân ac achub: ni nodwyd unrhyw anghenion hyfforddiant ychwanegol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau, nac aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub, ar y fframwaith moesegol. Byddai'r maes hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd;

4.7 hynt deddfwriaeth: cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer deddfwriaeth yr ymgynghorwyd ag o yn ei chylch.

**Cwynion yn erbyn aelodau'r awdurdod tân ac achub**

5 Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, ni wnaed unrhyw gwyn yn erbyn cynghorwyr yn rhinwedd eu swyddogaeth fel aelodau o'r awdurdod tân ac achub. O'r herwydd, ni chyfeiriwyd unrhyw fater i'r pwyllgor ymchwilio iddo na phenderfynu yn ei gylch. Mae'r pwyllgor yn gobeithio y bydd y sefyllfa foddhaol hon yn parhau.

**Gweithgareddau eraill a gyflawnwyd gan aelodau'r pwyllgor safonau**

6 Nid oes gofyniad na disgwyl i aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau fynychu cyfarfodydd yn ychwanegol at rai'r Pwyllgor. Nid yw aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau wedi bod yn bresennol fel sylwedyddion yn unrhyw un o gyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub na'r Panel Gweithredol yn ystod y deuddeng mis diwethaf.

**Casgliad**

7 Mae'r Pwyllgor Safonau yn argymell bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cefnogi'r newid mewn deddfwriaeth i ganiatáu ymchwilio i bob cwyn yn lleol yn y lle cyntaf, a dim ond cyfeirio'r rhai mwy difrifol i'r Ombwdsmon.

Mawrth 2006